**Rhif: WG49036**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd

## Dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd

Ionawr 2024

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx
ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd.

## Camau i'w cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Byw'n Iach ac Egnïol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10  3NQ

E-bost: PwysauIachCymruIach@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd [HTML] | LLYW. CYMRU

**Cynnwys**

Cynnwys ………………………………………………………..…………………….. 3

Crynodeb Gweithredol.......................................................................................... 4

Y Cefndir ............................................................................................................. 4

Gyda phwy yr ymgynghorwyd?............................................................................ 4

Disgrifiad o'r Ymgynghoriad.................................................................................. 5

Methodoleg – dadansoddiad o'r ymatebion........................................................... 6

Adborth a roddwyd gan ymatebwyr.................................................................. 6-11

Ymateb Llwyodraeth Cymru.............................................................................. 11

## Crynodeb Gweithredol

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn busnesau bwyd, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill ynghylch y bwriad i gyflwyno system newydd o hysbysiadau gwella. Y prif bwyntiau yw canfod a fydd yr hysbysiadau o fudd i swyddogion sy'n gorfodi rheoliadau bwyd, a deall sut y gallent effeithio ar fusnesau bwyd.

Daeth cyfanswm o 9 ymateb ffurfiol i law. Cyflwynwyd yr ymatebion naill ai drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein neu drwy e-bost.

Roedd cefnogaeth 100% i'r cynnig i ddefnyddio Hysbysiadau Gwella i fynd i'r afael â'r bwlch a nodwyd yn yr opsiynau gorfodi ffurfiol sydd ar gael wrth ymdrin â honiadau am faethiad ac iechyd o dan y cwestiwn hwn. Ni fynegwyd gwrthwynebiad cryf i'r cynnig yn unrhyw un o'r ymatebion agored i'r cwestiynau.

## Y Cefndir

Mae Llywodraeth y DU yn benderfynol o wireddu manteision ymadael â'r UE drwy sicrhau bod rheoleiddio craffach yn cefnogi uchelgeisiau'r DU o greu'r economi reoleiddiedig orau yn y byd, gan ysgogi twf economaidd, arloesedd a chreu swyddi. Ar gyfer Labelu, Cyfansoddiad a Safonau sy'n gysylltiedig â Maethiad (NLCS), mae hyn yn golygu amddiffyn diogelwch defnyddwyr drwy sicrhau bod gwybodaeth gywir ar gael am faethiad a bod y drefn orfodi'n effeithiol, gan leihau'r baich ar fusnesau yn ogystal ag osgoi unrhyw wahaniaeth heb ei gynllunio o fewn y DU ac yn ehangach yn rhyngwladol er mwyn lleihau rhwystrau i fasnach.

Lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynigion i wneud diwygiadau deddfwriaethol i honiadau am faethiad ac iechyd ar fwyd a diod. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnig diwygio'r gyfundrefn orfodi ar gyfer honiadau am faeth ac iechyd yng Nghymru. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei chylchredeg yn eang a'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru i ofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r sylwadau allweddol a wnaed gan ymatebwyr.

## Gyda phwy yr ymgynghorwyd?

Mae adran 48(4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gosod rhwymedigaeth ar Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau o dan y ddeddf ac eithrio o dan adran 17(2) neu 18(1)(c), i ymgynghori â sefydliadau yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli buddiannau sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol gan y rheoliadau. Mae dyletswydd statudol hefyd i ymgynghori â phersonau sydd â diddordeb:

'There shall be open and transparent public consultation, directly or through representative bodies, during the preparation, evaluation and revision of food law, except where the urgency of the matter does not allow it.'

Mae hefyd yn ofynnol ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, fel y nodir yn adran 48(4A).

## Disgrifiad o'r Ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn ar gyflwyno hysbysiad gwella a fyddai'n anelu at sichrau bod y gyfundrefn orfodi yng Nghymru ar gyfer y rheoliadau honiadau maethiad ac iechyd yn cyd-fynd ag opsiynau gorfodi NLCS eraill.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Medi 2023 a 15 Tachwedd 2023 a cheisiwyd barn y canlynol:

- Swyddogion awdurdodedig yr Awdurdodau Lleol a'r rhai sy'n arolygu busnesau bwyd ac yn gorfodi deddfwriaeth bwyd.
- Busnesau bwyd ar draws pob sector gan gynnwys gweithgynhyrchu, pecynnu a labelu cynhyrchion bwyd, arlwyo, manwerthu a chynhyrchu sylfaenol.
- Defnyddwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion deietegol penodol, alergedd neu anoddefiad bwyd neu'r rhai sy'n prynu bwyd ar ran rhywun ag alergedd neu anoddefiad bwyd, gweithwyr iechyd proffesiynol ac eraill sydd â diddordeb mewn deddfwriaeth bwyd.

Yn gryno, byddai'r cynigion diwygio a oedd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad yn:

- Diwygio'r weithdrefn orfodi ar gyfer rheoleiddio honiadau am faethiad ac iechyd yng Nghymru drwy gyflwyno cyfundrefn Hysbysiadau Gwella (drwy wneud diwygiadau i Reoliadau 2007).

Nod y cynnig i cyflwyno cyfundrefn Hysbysiadau Gwella fel dewis arall yn lle erlyn troseddol (a gwneud darpariaeth gysylltiedig), yw ceisio rhoi ffordd fwy cymesur i awdurdodau gorfodi ymateb i achosion o dorri'r gyfraith sy'n llywodraethu'r defnydd o honiadau am faethiad ac iechyd iechyd, a lleihau'r baich ar fusnesau. Mae hyn yn rhoi'r cymhelliant cywir i weithredwyr busnesau bwyd gydymffurfio â'r rheoliadau, ac yn rhoi'r dulliau cywir i awdurdodau gorfodi ymateb i achosion o dorri'r gyfraith.

**Methodoleg – dadansoddiad o'r ymatebion**

Rydym yn ddiolchgar i bawb a ymatebodd. Cawsom gyfanswm o 9 ymateb i'r ymgynghoriad fel y nodir yn Nhabl 1:

Tabl 1: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

| | Sefydliadau | Unigolion â safbwyntiau personol neu broffesiynol |
|---|---|---|
| Nifer yr ymatebion | 7 | 2 |

**Adborth a roddwyd gan ymatebwyr**

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod bwlch yn yr opsiynau gorfodi ffurfiol sydd ar gael i swyddogion awdurdodedig ar gyfer achosion o dorri safonau bwyd ac y dylem ddefnyddio'r pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 i gyflwyno Hysbysiadau Gwella? Eglurwch.

Atebodd pob un o'r naw ymatebydd i'r ymgynghoriad 'ydw' mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth o 100% i'r cynnig i ddefnyddio Hysbysiadau Gwella i fynd i'r afael â'r bwlch a nodwyd yn yr opsiynau gorfodi ffurfiol sydd ar gael wrth ddelio â honiadau am faethiad ac iechyd.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y manteision canlynol i gyfundrefn Hysbysiadau Gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd:

- Y gallu i reoleiddio cwmnïau sy'n gwneud honiadau iechyd anawdurdodedig ar lwyfannau ar-lein a thrwy ddylanwadwyr cymdeithasol
- Y gallu i ddiweddaru hen safonau o ystyried bod y cyhoedd bellach yn bwyta mathau mwy amrywiol o fwyd

Cwestiwn 2: Ydych chi’n credu bod cyflwyno Hysbysiadau Gwella yn fesur priodol a chymesur ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â’r gofynion perthnasol o ran gwybodaeth am fwyd a safonau bwyd?

Ymatebodd y rhan fwyaf 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Nododd rhai ymatebwyr ymhellach:

- ‘Rydym yn cytuno y byddai defnyddio Hysbysiadau Gwella ar gyfer rhai achosion o fynd yn groes i’r ddeddfwriaeth yn briodol er mwyn gwneud i fusnes gydymffurfio, a, gan eu bod yn cael eu defnyddio i gywiro diffyg cydymffurfio mewn deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â bwyd, mae busnesau'n ymwybodol o'u bodolaeth. Nodir, o ran achosion mwy difrifol o fynd yn groes i’r ddeddfwriaeth, fod y rhwymedi presennol o fewn deddfwriaeth erlyn busnesau yn parhau i fod yn y ddeddfwriaeth, sy’n rhywbeth i’w groesawu.’
- ‘Gall defnyddio honiadau anawdurdodedig ddigwydd oherwydd camgymeriad anfwriadol neu adnoddau technegol neu reoleiddiol cyfyngedig, yn hytrach nag ymgais fwriadol i gamarwain, a byddai busnesau felly'n croesawu dull pragmataidd cychwynnol.’

Cwestiwn 3. Ydych chi’n cytuno y bydd cyflwyno Hysbysiadau Gwella yn helpu i annog busnesau i gydymffurfio â’r rheoliadau? Os nad ydych chi, esboniwch.

Atebodd y rhan fwyaf 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Ymhlith y sylwadau ychwanegol roedd:

- ‘Rwy'n credu y bydd hyn yn helpu i annog busnesau tuag at gydymffurfio â rheoliadau ond rwy'n teimlo y byddai'n rhaid gwneud mwy o waith ochr yn ochr â hyn.’
- ‘Mae'r system bresennol yn gymhleth ac yn gostus i'w gorfodi ac nid yw'n annog cydymffurfiaeth.’
- ‘Mae gallu busnesau i drafod defnyddio honiadau anawdurdodedig a chydymffurfio â'r rheoliadau yn rhoi cyfle i ddysgu a gwella’r ymgysylltiad ag awdurdodau gorfodi.’
- ‘Er y cydnabyddir ei bod yn drosedd peidio â chydymffurfio â Hysbysiad Gwella, mae risg - fel sydd wedi digwydd gyda deddfwriaeth arall lle caiff hysbysiadau eu defnyddio - y bydd rhai busnesau yn cydymffurfio erbyn y dyddiad penodedig yn yr hysbysiad ond yna'n mynd yn ôl i beidio â chydymffurfio unwaith y bydd yr hysbysiad yn cael ei godi.’

Cwestiwn 4. Oes gennych chi unrhyw bryderon neu ymholiadau eraill ynghylch cyflwyno’r Hysbysiadau Gwella arfaethedig?

O'r naw ymatebydd, dywedodd tri nad oes ganddyn nhw unrhyw bryderon nac ymholiadau ynghylch cyflwyno'r Hysbysiadau Gwella arfaethedig. Y cwestiynau a'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr eraill oedd:

- ‘Rwy'n teimlo, oni bai bod hyn yn destun archwiliad neu’n cael ei ddilyn â chynllun gweithredu llym, y gallai pethau aros yr un fath. Rwy’n meddwl hyn gan fod pobl yn tueddu i gywiro eu camweddau i ddechrau, ond mae hyn yn gallu llithro yn y pen draw.'
- ‘Fel sy'n wir gyda hysbysiadau gwella eraill sydd ar gael i orfodwyr cyfraith bwyd, mae'n bwysig bod hawl i apelio yn erbyn hysbysiad i unrhyw un sy'n cael un.’
- ‘Rhaid bod yn ofalus i sicrhau nad yw cwmnïau'n gweld y rhain yn hysbysiadau diddannedd - dylid ei gwneud yn glir o fewn y rhain, os na fyddant yn ymgymryd â'r camau gwella, y bydd camau pellach yn cael eu cymryd. Dylid hefyd ei gwneud yn gyhoeddus pwy sydd wedi cael hysbysiadau gwella, fel bod ysgogiad i gwmnïau (a'u dylanwadwyr) barhau i gydymffurfio.’
- ‘Efallai y bydd busnesau'n cael eu temtio i fabwysiadu dull llai trylwyr o gydymffurfio gan wybod bod y gyfundrefn orfodi yn llai llym nag o'r blaen.’
- ‘Mae risg y bydd rhai busnesau'n cydymffurfio â'r hysbysiad o fewn yr amser a bennwyd ac yna'n mynd yn ôl i beidio cydymffurfio ar ôl i’r hysbysiad gael ei godi [...] Mae pryderon hefyd, lle nodir nifer o enghreifftiau o dorri rheolau o ran honiadau am faethiad ac iechyd mewn un achos, gan y byddai hyn yn arwain at ddrafftio hysbysiadau lluosog i sicrhau bod pob toriad yn cael ei gywiro o fewn yr amserlen a ddarparwyd.’
- ‘Byddem yn pryderu pe bai’n ei gwneud hi'n haws i gynhyrchion fod ar stop, yn aros am ganlyniad.’

| Cwestiwn 5. Beth yw’r effeithiau a ragwelir ar fusnesau wrth gyflwyno’r Hysbysiadau Gwella arfaethedig? |
|---|

Ni wnaeth tri o'r ymatebwyr unrhyw sylwadau ar gwestiwn 5. Nododd un ymatebydd nad oedd yn gweld unrhyw effeithiau i fusnesau. Ychwanegodd yr ymatebwyr eraill yr effeithiau canlynol:

- ‘Pwysau ychwanegol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â safonau, na allaf ond eu gweld fel rhai buddiol i ddefnyddwyr ac ati.’
- ‘Mae dull mwy darbodus a chymesur o gydymffurfio yn lleihau cosbau trymach ac yn sicrhau cydymffurfiaeth.’
- ‘Mae angen cydymffurfio, felly byddai'n ddoeth iddynt ymgynghori ag ymgynghorwyr cyfreithiol penodol sy’n ymwneud â honiadau am faeth ac iechyd, yn ogystal ag arbenigwyr maeth (e.e. Maethegwyr Cofrestredig UKVRN). Bydd raid i fusnesau adolygu eu marchnata ac, os nad ydyn nhw’n cydymffurfio, bydd raid iddynt ddiwygio’u deunyddiau pecynnu a marchnata.’
- ‘Rydym yn credu y bydd y newidiadau'n creu chwarae teg yng Nghymru ac ar draws y DU, gan y bydd busnesau nad ydynt yn cydymffurfio ar hyn o bryd yn fwy tebygol o gael hysbysiad gwella na chael eu herlyn o dan y system bresennol. Dydyn ni ddim yn rhagweld unrhyw effeithiau negyddol.’

- ‘Y posibilrwydd o gyflwyno hysbysiadau lluosog am un cynnyrch os oes sawl honiad yn cael ei wneud, sy'n digwydd gyda rhai bwydydd. Os nad yw'r data sy'n ofynnol i gadarnhau'r honiad sy'n cael ei wneud ar gael yn rhwydd, gall cydymffurfio o fewn amserlen yr hysbysiad fod yn anodd.’

Cwestiwn 6. Ydych chi’n ystyried y bydd cyflwyno’r Hysbysiadau Gwella arfaethedig yn cael effaith o ran adnoddau ar awdurdodau lleol?

Atebodd chwech o ymatebwyr 'ydw' i'r cwestiwn hwn. Dywedodd dau nad oedden nhw'n gallu gwneud sylw. Dywedodd un o'r ymatebwyr y canlynol:

‘Ydw, oherwydd er eu bod ar gael ar gyfer deddfwriaeth arall sy'n gysylltiedig â bwyd, nid ydynt yn cael eu defnyddio'n aml, felly mae'n debygol y bydd angen rhyw fath o hyfforddiant i swyddogion gorfodi ar ddefnyddio a drafftio hysbysiadau yn y maes hwn o ddeddfwriaeth. Gallai rhai busnesau llai egwyddorol gywiro diffyg cydymffurfio i sicrhau bod yr hysbysiad yn cael ei godi, ac yna fynd yn ôl i beidio cydymffurfio. Gallai hyn arwain fwy o alw am adnoddau’r swyddogion wrth ymchwilio i'r mater a sicrhau bod y busnes yn parhau i gydymffurfio. Yn ogystal, fel yr ystyriwyd yn yr ymateb i gwestiynau 4 a 5, ar gyfer rhai achosion o dorri’r rheolau, mae'n debygol y bydd rhaid cyflwyno sawl hysbysiad pan fydd nifer o honiadau anawdurdodedig wedi’u gwneud am gynnyrch.’

Cwestiwn 7. Beth yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Dywedodd pedwar o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n gallu gwneud sylw neu nad oedden nhw'n gwybod yr ateb i'r cwestiwn hwn. Dywedodd tri o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n gallu gweld y byddai’r newid hwn yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg. Dywedodd yr ymatebwyr eraill:

- Roedden nhw'n dymuno gweld Cymru'n arwain ar y newid hwn.
- ‘Byddai'n helpu pe bai Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru a/neu Lywodraeth Cymru yn darparu templed dwyieithog ar gyfer hysbysiad gwella, i bob awdurdod lleol yng Nghymru ei ddefnyddio.’
- ‘Dylai'r hysbysiadau fod yn ddwyieithog, fel y bydd pawb sy'n derbyn un neu sy'n edrych ar un ar-lein yn gallu defnyddio'r Gymraeg a bydd hefyd yn gwella ymwybyddiaeth o ddogfennau dwyieithog ac yn hyrwyddo’u derbynioldeb.Gan na fydd pob aelod na rhiant-gwmni, cwmnïau marchnata na defnyddwyr yn gallu darllen Cymraeg, bydd ei ddarparu mewn fformat dwyieithog haws na’i ddarparu mewn un iaith yn unig. Dylai'r defnydd o dempledi gweddol safonol gadw costau cyfieithu mor isel â phosibl.’

Cwestiwn 8. Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu cyflwyno hysbysiadau gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; ac nad yw’n cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â’i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

Fe wnaeth un ymatebydd hepgor y cwestiwn hwn; Dywedodd chwech arall nad oedden nhw'n gwybod neu nad oedd ganddyn nhw sylwadau i'w gwneud. Dyma a ddywedodd y ddau ymatebydd arall:

- Hoffent weld ‘platfform ar-lein sy'n galluogi pob tîm safonau masnach ledled y DU i uwchlwytho eu hysbysiadau gwella, fel bod cynulleidfa ehangach yn gallu gweld y Gymraeg wrth edrych ar ddogfennau dwyieithog’.
- Os caiff ei wneud yng Nghymru mae cyfle i hyrwyddo ei ddynodiad tarddiad gwarchodedig a defnyddio'r Gymraeg a chyfieithu ar gyfer hyn.’

Cwestiwn 9: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i’r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma.

Doedd gan chwech o'r ymatebwyr ddim sylwadau pellach yma. O'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn, y materion a godwyd oedd:

- Rhaid i'r hysbysiadau gwella gynnwys marchnata, cyfryngau cymdeithasol a’r defnydd o ddylanwadwyr, gan mai dyma’n aml lle mae busnesau a'r dylanwadwyr y maent yn eu talu yn gwneud neu'n awgrymu honiadau anawdurdodedig. Dylai hyn hefyd atgyfnerthu Erthygl 12 (c), sy'n gwahardd, mewn cyfathrebu masnachol, honiadau iechyd gan feddygon neu weithwyr maeth neu iechyd proffesiynol unigol - gan fod llawer o enghreifftiau yn y cyfryngau o feddygon, maethegwyr, deietegwyr, therapyddion maeth, nyrsys, deintyddion, fferyllwyr, imiwnolegwyr ac ati sy'n gwneud honiadau iechyd am gynhyrchion y maent yn eu gwerthu/hyrwyddo ac ati. Yn ddelfrydol, dylid ehangu hyn hefyd i gwmpasu pob dylanwadwr, er mwyn lleihau dylanwad camarweiniol a gormodol ar y cyhoedd.'
- ‘Honiadau 'gohiriedig' yw'r rhai y gellir eu defnyddio tra eu bod yn dal i gael eu hystyried. Fel y nodwyd, bwriad Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban yw osgoi tarfu ar fusnesau cyhyd ag y bo modd, ac felly gellir parhau i ddefnyddio honiadau 'gohiriedig' yn unol â Bwletin 2014 hyd nes y gwneir penderfyniad. Mae'r llywodraeth hefyd wedi datgan ei bwriad i lansio galwad am dystiolaeth, yn gofyn am wybodaeth gan randdeiliaid fel y gellir deall graddfa’r mater honiadau 'gohiriedig' yn llawn. Yn dilyn hyn, dywedir hefyd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y dull o ymdrin â'r honiadau hyn i'w defnyddio yn y farchnad Brydeinig [...] gan fod rhai o’r honiadau ‘gohiriedig’ wedi bod yn aros am gymeradwyaeth am yn

agos i 10 mlynedd, dylai fod amserlen ddiffiniedig sy’n dangos i fusnesau pryd y disgwylir i werthusiadau fynd rhagddynt a chael gweld yn glir unrhyw addasiadau angenrheidiol i'r amserlen ddisgwyliedig. [Byddem] yn annog Llywodraeth Cymru i weithio i ddatrys y cwestiynau ynghylch honiadau ‘gohiriedig’ ar y cyd â llywodraeth y DU a’r gweinyddiaethau eraill.'

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gan fod yr holl ymatebwyr o blaid cyflwyno cyfundrefn Hysbysiadau Gwella ar gyfer honiadau am faethiad ac iechyd gan ei bod yn gyfundrefn orfodi fwy cymesur ac effeithiol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno rheoliadau i gyflwyno Hysbysiadau Gwella i'r gyfundrefn orfodi.

Codwyd rhai mân bryderon gan ymatebwyr. Er enghraifft, y bydd busnesau yn gweld cyflwyno Hysbysiadau Gwella fel cam cyntaf i gyflwyno mesurau gorfodi sy’n llacio'r gyfundrefn reoleiddio ynghylch honiadau am faethiad ac iechyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio ochr yn ochr â chyrff gorfodi i sicrhau bod busnesau'n cael negeseuon clir ynghylch cyflwyno hysbysiadau gwella a'r canlyniadau i fusnesau os byddant yn parhau i fynd yn groes i reoliadau Safonau Bwyd. Nodwyd hefyd bod posibilrwydd y bydd busnesau'n cael hysbysiadau lluosog am un cynnyrch os oes sawl honiad yn cael ei wneud. Bydd canllawiau ar amgylchiadau o'r fath yn cael eu llunio gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â'r newid hwn mewn deddfwriaeth.

Nododd rhai ymatebwyr bryderon pellach sydd y tu hwnt i gwmpas y cynnig a nodir yn yr ymgynghoriad hwn, felly nid yw'r rhain wedi cael sylw yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad. At ei gilydd, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn golygu nad ydym o'r farn bod angen gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cynigion polisi ac rydym yn bwriadu bwrw ymlaen i wneud y ddeddfwriaeth fel y nodir yn adrannau blaenorol yr ymateb hwn.

## Y Camau Nesaf

Yn dilyn cyhoeddi'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn deddfu i ddiwygio'r weithdrefn orfodi ar gyfer rheoleiddio honiadau am faethiad ac iechyd yng Nghymru drwy gyflwyno cyfundrefn hysbysiadau gwella.

Byddwn yn darparu canllawiau sy'n ymwneud â newidiadau deddfwriaethol i fusnesau drwy gyhoeddi taflen wybodaeth am ddeddfwriaeth yn ymwneud â maethiad.

## Newidiadau Deddfwriaethol

Mae'r pŵer i wneud deddfwriaeth NLCS wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae hyn wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998.

Er mwyn cyflwyno Hysbysiadau Gwella yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 i wneud rheoliadau diwygio i ddiwygio Rheoliadau Honiadau am Faethiad ac Iechyd (Cymru) 2007 i alluogi cyflwyno hysbysiadau gwella am beidio â chydymffurfio â deddfwriaeth yn

ymwneud â honiadau am faethiad ac iechyd fel dewis arall yn lle erlyn troseddol (a bydd yn gwneud darpariaeth gysylltiedig). Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi tri mis o rybudd rhwng deddfu a gweithredu. Bwriad Llywodraeth Cymru yw gosod Offeryn Statudol yn 2024, i ddod i rym ym mis Hydref 2024 yn unol â Dyddiadau Cychwyn Cyffredin.